**EITEM AR YR AGENDA: 11**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 19eg Medi 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **PRIF SWYDDOG TÂN CYNORTHWYOL (CYFLWYNO'R GWASANAETHAU)** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau am yr adolygiad o'r amseroedd shifft newydd ar orsafoedd criw dydd. |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 15fed Mawrth 2004, penderfynodd yr Aelodau y dylid cyflwyno amseroedd dechrau a gorffen newydd i ddiffoddwyr tân llawn amser ar orsafoedd criw dydd er mwyn i'r risg a'r adnoddau gyd-fynd mewn ffordd fwy effeithiol. Cafodd hyn ei adnabod fel rhan o'r broses o wneud y Cynllun Integredig Rheoli Risg.

1.2 Ar 6ed Ionawr 2005, newidiodd yr amseroedd dechrau a gorffen ar orsafoedd criw dydd o 08:00 tan 18:00 i 12:00 tan 22:00.

2. **YR ADOLYGIAD**

2.1 Cynhaliwyd cyfarfod yng Ngorsaf Dân Llandudno ar 12fed Gorffennaf i adolygu'r trefniadau lleol mewn gorsafoedd criw dydd ers rhoi'r amseroedd dechrau a gorffen newydd ar waith. Yn cadeirio'r cyfarfod roedd y Dirprwy Brif Swyddog Tân a gwahoddiad i ddau gynrychiolydd o bob un o'r gorsafoedd criw dydd ac Ysgrifennydd Undeb yr FBU. Daeth naw cynrychiolydd a'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) i'r cyfarfod, a chafwyd ymddiheuriad gan Ysgrifennydd yr Undeb.

2.2 Bu'r cyfarfod yn gynhyrchiol gan roi cyfle i'r cynrychiolwyr leisio a thrafod materion yn ymwneud ag effaith y newid mewn amser. Wedi'r cyfarfod mae'r Dirprwy wedi cadarnhau yn ysgrifenedig y materion a drafodwyd a rhai o'r atebion a awgrymwyd ac a drafodwyd, a rhaglen o waith pellach ac ymchwiliad i ddatrys y materion mwy cymhleth.

2.3 Awgrymwyd y byddai cynnal rhagor o gyfarfodydd yn rheolaidd o fudd i drafod ac ymdrin â'r materion sy'n ymwneud â newid yr amser. Cytunwyd i hyn a bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal 6ed Ionawr 2006, sef blwyddyn wedi dechrau ar y newid.

3. **YR EFFAITH AR YR OCHR WEITHREDOL**

3.1 Mae'r tabl canlynol yn dangos y digwyddiadau a fu gyda'r nosau dan yr amseroedd dechrau a gorffen newydd o'u cymharu â'r hen drefn foreuol.

3.2

| Gorsaf | 08:00 tan 12:00<br>Y cyn oriau bore | 18:00 tan 22:00<br>Yr oriau newydd gyda'r nos |
|---|---|---|
| Llandudno | 47(29) | 75 (18) |
| Bae Colwyn | 43 (19) | 73 (12) |
| Caernarfon | 35 (20) | 93 (8) |
| Bangor | 71 (57) | 149 (57) |
| Caergybi | 41 (20) | 108 (26) |
| **CYFANSWM** | **237 (145)** | **498 (121)** |

Sylwer: y ffigurau mewn cromfachau yw'r nifer o Larymau Diangen Awtomatig fel rhan o gyfanswm y digwyddiadau i'r gorsafoedd.

3.3 Ers dechrau ar y newid, bu 1 achubiad gyda'r nos, tra na fu yr un achubiad yn y bore.

3.4 Unwaith y gwnaed y bwriad i newid yr amseroedd dechrau a gorffen yn hysbys, cafwyd un cais i symud i system ddyletswydd arall. Cafodd y cais hwn ei dynnu'n ôl pan gafodd ei ganiatáu. Ni chafwyd yr un cais oddi wrth staff y system criw dydd i symud i system ddyletswydd arall ers i'r amseroedd gael eu rhoi ar waith, a chafwyd 1 cais i symud i'r system criw dydd o'r system 24 awr.

3.5 Bu gostyngiad bychan yn y gyfradd absenoldeb salwch staff y system criw dydd.

4. **ARGYMHELLION**

4.1 Bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.